OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2024 No. 339

# Rheoliadau Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) (Diwygio) 2024

**Diwygio rheoliad 2 (dehongli)**

**4.** Yn rheoliad 2—

(a) yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor, mewnosoder—

"ystyr "adroddiad aelwydydd islaw'r incwm cyfartalog" ("*households below average income report*") yw'r data a gyhoeddir o bryd i'w gilydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar incymau aelwydydd ac unigolion o dan adran 4 o Ddeddf Diwygio Lles a Gwaith 2016(**1**);

ystyr "aelwyd incwm is" ("*lower income household*") yw aelwyd sydd ag incwm net, ac eithrio unrhyw incwm o fudd-daliadau neu daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd, sy'n llai na 60% o incwm cyfwerthedig net canolrifol aelwydydd cyn costau tai yn seiliedig ar y data diweddaraf a gyhoeddwyd yn yr adroddiad aelwydydd islaw'r incwm cyfartalog;

ystyr "meini prawf cymhwystra iechyd" ("*health eligibility criteria*") yw person sy'n byw â chyflwr anadlol cronig, cyflwr cylchrediad y gwaed cronig neu gyflwr iechyd meddwl cronig;;";

(b) yn y diffiniad o "budd-daliad sy'n dibynnu ar brawf modd"—

(i) ym mharagraff (e), ar y diwedd hepgorer "ac";

(ii) ym mharagraff (f), ar y diwedd mewnosoder "ac";

(iii) ar ôl paragraff (f), mewnosoder—

"(g) lwfans ceisio gwaith yn seiliedig ar incwm (fel y diffinnir "income-based jobseeker's allowance" yn adran 1(4) o Ddeddf Ceiswyr Gwaith 1995(**2**));".

(**1**) 2016 p. 7. Cyhoeddir cyfres yr adroddiad aelwydydd islaw'r incwm cyfartalog ar-lein yn Households below average income (HBAI) statistics - GOV.UK (www.gov.uk) a gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

(**2**) 1995 p. 18. Diwygiwyd adran 1(4) gan adran 59 o Ddeddf Diwygio Lles a Phensiynau 1999 (p. 30) ac Atodlen 7 iddi. Mae diwygiadau eraill i'r adran hon, ond nid yw yr un ohonynt yn berthnasol at ddibenion y Rheoliadau hyn.